EISTEDDFOD
Y Garreg Las
1-8 Awst 2026

### 602. Parti Llefaru

## Gwlad y Machlud Mwyn

*Cewch gyflwyno'r gytgan hyd at ddwywaith yn unig, fel pennill cyfan neu wedi'i rannu a'i blethu gyda'r penillion eraill*

O Garn Llidi i lethrau'r Frenni,
O'r ddau Gleddau i lannau'r Teifi,
O Rydwilym i Lyn Rhosyn,
Dan gysgodion Foel Cwm Cerwyn,
Profwch win o ryfedd rin
Y canrifoedd a fu;
Lle bu gynt yr hud ar hynt
Mae yma ledrith ym mrig yr hwyr.

O Gwmtydu a Chraig-yr-enwau
Hyd ffrydiau Cenarth a'u cwryglau,
O Draeth y Mwnt i Gwmalltcafan,
Clywch gragen Beca, bloedd y cnapan.
Atsain mae ein gwefr a'n gwae
Uwch niwloedd Dyfed o hyd;
Geiriau taer sy'n dreigio'r aer
Wrth herio'r llanw ar draethau'r hwyr.

Hawdd yw canu yn arwrol
Am ysblander ein gorffennol;
Ystrydebau sy'n cymylu
Gweledigaeth am yfory.
Canwn gân am ffynnon lân
Heb sylwi dim ar y baw;
Gwlad yr hud sy'n marw'n fud,
Yn disgwyl bore a ddaw'n rhy hwyr.

**Cytgan:**

Croeso tu hwnt i'r bryniau lle mae'r haul
Yn colli ffydd ar ddiwedd dydd
Wrth araf lithro dros y gorwel.
Cynnwn fflam rhag y nos sy'n ddistaw gau.
Ar derfyn dydd rhaid cadw ffydd.
Croeso i chi i wlad y machlud mwyn.

Gareth Ioan